Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.4.3 Ymddiriedolaethau a sefydliadau

Trosolwg

Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi manylion am ymddiriedolaethau sy'n rhoi grantiau i gyrff gwirfoddol (nid i unigolion fel rheol) sydd wedi eu lleoli yng Nghymru, gyda chysylltiad arbennig â Chymru, neu os yw Cymru neu rannau o Gymru o fewn yr ardal lle maen nhw'n dosbarthu grantiau. Maen nhw'n cynrychioli cyfran fach o'r cannoedd lawer o ymddiriedolaethau elusennol yn y DU, gan gynnwys cyrff grantiau mawr. Bydd eich cyngor gwirfoddol sirol lleol yn gallu dod o hyd i ymddiriedolaethau eraill a allai ateb eich anghenion.

Mae'r wybodaeth yn yr adran hon yn seiliedig ar yr atebion hynny. Lle na dderbyniwyd atebion, defnyddiwyd y wybodaeth ddiweddaraf a gyhoeddwyd. Diben y manylion a restrir yw rhoi arweiniad cyffredinol yn unig – dylech o hyd gysylltu â'r ymddiriedolaeth briodol am wybodaeth fwy manwl, neu fynd i'w gwefan.

Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth ym 1990 i reoli cyllid a dderbyniwyd gan gwmni Shell (DU) pan orffennodd weithredu terminws olew ar Ynys Môn. Ei nod yw darparu mwynderau a chyfleusterau er lles trigolion lleol.

Darperir cyllid o dan y penawdau canlynol:

- Eglwysi & Capeli (mân waith)
- Cyfleusterau Cymunedol (neuaddau pentref, mannau chwarae, ayb)
- Grantiau Cymunedol Llai (gwasanaethau cymdeithasol yn bennaf)

Blaenoriaethau – mudiadau gwirfoddol wedi eu lleoli ar Ynys Môn.

Ceisiadau – mae'r ymddiriedolaeth yn gwahodd ceisiadau yn flynyddol, i'w cyflwyno'n ysgrifenedig.

Ardal ddosbarthu – Ynys Môn.

Cyswllt: Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, Swyddfeydd y Sir, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW
Ffôn: 01248 752 603
Ffacs: 01248 752 696
brxfi@anglesey.gov.uk
www.anglesey.gov.uk

Sefydliad Laura Ashley

Nod y sefydliad hwn yw cyllido prosiectau yng nghefn gwlad Canolbarth Cymru i wella bywydau teuluoedd.

Blaenoriaethau – canolfannau celfyddydau aml-bwrpas i deuluoedd lleol; digwyddiadau arbennig i ofalwyr ifanc; addysg a chwarae i deuluoedd gyda'i gilydd; adfywio ffermio drwy farchnadoedd ffermwyr neu fentrau eraill.

Cyswllt: Y Cyfarwyddwr, Sefydliad Laura Ashley, 3 Cromwell Place, Llundain
SW7 2JE
Ffôn: 020 7581 4662
info@laf.uk.net
www.laf.uk.net

Apêl Plant mewn Angen y BBC (Cymru)

Nod Apêl Plant mewn Angen y BBC yw gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant difreintiedig yn y DU.

Blaenoriaethau – mae'r Apêl yn helpu plant o dan 18 oed neu'n iau yn y DU os yw eu hanfanteision yn cynnwys:

- Anableddau meddyliol, corfforol neu synhwyraidd;
- Problemau ymddygiad neu seicolegol;
- Byw mewn tlodi neu sefyllfa o amddifadedd, salwch, trallod, cam-drin neu esgeulustod.

Cyswllt: Y Cydlynydd Cenedlaethol, Y Ganolfan Ddarlledu, Llandaf, Caerdydd CF5 2YQ
Ffôn: 029 2032 2383
Ffacs: 029 2032 2337
marc.phillips@bbc.co.uk
www.bbc.co.uk/cin

Ymddiriedolaeth Elusennol Beatrice A V Cadman

Nodau – dibenion elusennol cyffredinol.

Ceisiadau – dylid ymgeisio'n ysgrifenedig ar unrhyw adeg. Dylid anfon amlen gyda stamp os am dderbyn cydnabyddiaeth.

Ardal ddosbarthu – Y DU, gyda rhywfaint o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i Ogledd Cymru (a Swydd Efrog a Gorllewin Canolbarth Lloegr).
Cyswllt: P H B Cadman, 19 Tudor Hill, Sutton Coldfield, Gorllewin Canolbarth Lloegr B73 6BD

Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog

Dyma gwnni elusennol a sefydlwyd i helpu pobl, cymunedau a mudiadau gwirfoddol i gyflawni cadwraeth a gwelliant amgylcheddol cadarnhaol o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth yn 2009, gydag ariannu cychwynnol gan y Grid Cenedlaethol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi:

- Cadwraeth, diogelwch a gwelliannau amgylcheddol yn y Parc er lles y cyhoedd.
- Mwy o ymwybyddiaeth addysgol a gwybodaeth am gadwraeth, diogelwch a gwelliant y Parc, parthed yr amgylchedd ffisegol, naturiol ac archeolegol.

Creda'r Ymddiriedolwyr fod amgylchedd gwydn, iachus ac amrywiol yn sail hanfodol ar gyfer adeiladu cymdeithas ac economi sy'n ffynnu. Maen nhw'n tanysgrifio i egwyddorion datblygiad cynaliadwy tra'n cydnabod ein bod i gyd yn dal i archwilio beth yw ystyr cynaladwyedd yn ymarferol ar bob lefel yn y gymdeithas.

Mae Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog yn gweld ei rôl fel galluogi cymunedau lleol a mudiadau gwirfoddol, sy'n byw a gweithio o fewn ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, i gadw a gwella eu hamgylchedd lleol yn gadarnhaol, er mwyn cyfrannu at

ansawdd bywyd y bobl sy'n byw, yn gweithio neu yn ymweld â'r Parc.

Wrth gyflawni ei amcanion ei hun, dymuna'r Ymddiriedolaeth gyfrannu at amcanion sefydlu'r Parciau Cenedlaethol:

- Cadw a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parciau Cenedlaethol;
- Hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer dealltwriaeth a mwynhad nodweddion arbennig y Parciau gan y cyhoedd
- Helpu meithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau o fewn yr ardaloedd.

Cyswllt: Alan Underwood
Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth
"The Orchids"
Heol Blaenafon
Govilon
Y Fenni
NP7 9NY

Ffon: 01873 832490
alan@breconbeaconstrust.org
www.breconbeaconstrust.org

Ymddiriedolaeth Cemlyn-Jones

Nodau:

- Cadwraeth a gwarchod nodweddion o ddiddordeb mwynderol cyffredinol i'r cyhoedd neu o ddiddordeb hanesyddol neu gyhoeddus yng Nghymru ar yr amod bod gwaith yr Ymddiriedolaeth wedi'i gyfyngu i dir lle mae gan y cyhoedd fynediad sicr iddo.
- Ymchwil feddygol yn enwedig canser, clefyd y galon, arthritis, cryd cymalau a diabetes. Canlyniadau ymchwil o'r fath i'w lledaenu i'r cyhoedd.
- Gwarchod a lles anifeiliaid ac adar, ac astudio a hyrwyddo cerddoriaeth yn enwedig perfformiadau operatig.
- Gweithgareddau a gofynion cyrff crefyddol ac addysgol.
- Gellir ond rhoi grantiau i fudiadau elusennol cofrestredig, ac nid i unigolion.

Ardal sy'n elwa – mae'n well gan yr Ymddiriedolaeth noddi prosiectau penodol o fudd i Ogledd Cymru, yn enwedig hen sir Gwynedd ac Ynys Môn, na cheisiadau cenedlaethol cyffredinol.

Dosbarthwyd cyfanswm o £40,500 mewn grantiau yn y flwyddyn yn diweddu fis Mawrth 2006.

Cyswllt: Yr Ymddiriedolwyr,
59 Stryd Madog, Llandudno,
Conwy LL30 2TW
Ffôn: 01492 874 391
Ffacs: 01492 871 990

Ymddiriedolaeth Elusennol Teulu Chrimes

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio ei hincwm i fynd i'r afael â thlodi a thrallod ac i roi cyllid yn ôl disgresiwn yr Ymddiriedolwyr i brosiectau sydd o fudd i'r gymuned ac sy'n gwella iechyd ac addysg yn ardal y Gogledd Orllewin.

Ardal ddosbarthu – blaenoriaeth i Gonwy, Gwynedd a Glannau Merswy.

Grantiau'n amrywio rhwng £50 a £500.

Cyswllt: Ymddiriedolaeth Elusennol Chrimes, d/o Northfield, Upper Raby Road, Neston, De Cilgwri CH64 7TZ
Ffôn: 0151 336 4959

Menter Wirfoddol Clwyd – Cist Gymunedol

Dim ond ceisiadau gan fudiadau neu grwpiau yn hen sir Clwyd fydd yn cael eu hystyried, ac sy'n gweithio gyda'r henoed, pobl gydag anableddau corfforol neu ddysgu, pobl gyda phroblemau iechyd meddwl, plant dan anfantais, pobl ddi-waith sy'n darparu gwasanaeth gwirfoddol, cynnal a chadw neuaddau pentref, prosiectau amgylcheddol a gweithgareddau diwylliannol.

Cyswllt: Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, Canolfan Naylor Leyland, Stryd y Ffynnon, Sir Ddinbych LL15 1AF
Ffôn: 01824 702 441/703 805
Ffacs: 01824 705 412
office@dvsc.co.uk

Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo

Nodau
Cenhadaeth Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo yw 'hybu a chyflawni adfywio cymdeithasol ac economaidd yn y Meysydd Glo yng Nghymru, Lloegr a'r Alban'.

Blaenoriaethau
Mae'r Ymddiriedolaeth yn nodi ei bod yn cefnogi prosiectau sy'n cyd-fynd ag un neu fwy o'r themâu cyllido canlynol:

- Cymunedau cefnogol, sy'n cynnwys elfennau cyfalaf a refeniw o brosiectau sy'n creu neu'n gwella cyfleusterau cymunedol; sy'n gwella mynediad at wasanaethau gan gynnwys iechyd, a chyngor ar ddyledion a hawl i fudd-daliadau, ac sy'n cefnogi cyfranogiad pobl leol.
- Cymunedau dysgu, sy'n cynnwys gweithgareddau i bobl o bob oed ar gyrsiau achrededig neu beidio, ar yr amod eu bod yn ychwanegol at ddarpariaeth statudol. Mae'n cynnwys blynyddoedd cynnar, gweithgareddau y tu allan i'r ysgol a gwersylloedd haf, gwaith ieuenctid a chynlluniau mentora a gwirfoddoli.
- Cymunedau mentrus, i gefnogi datblygiad grwpiau gwirfoddol a mentrau cymdeithasol er mwyn cynhyrchu incwm, ac mae'n cynnwys costau sefydlu, datblygu adeiladau ac offer i wella cynaliadwyedd, hyfforddiant busnes a chynlluniau gyda ffocws ar rannu adnoddau a chontractio.
- Cefnogi pobl i ddod o hyd i waith, sy'n ceisio adeiladu ar brosiectau cyflogaeth a gynigir eisoes drwy gefnogi dulliau newydd a lleol o gael pobl i weithio. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau sy'n gwella rhagolygon gwaith pobl drwy gymhorthdal cyflog, sgiliau galwedigaethol a chynlluniau hyfforddi wedi eu teilwrio; cynlluniau sy'n targedu pobl anodd i'w cyrraedd; gweithgareddau sy'n troi o gwmpas diwydiannau twf sy'n darparu cynlluniau hyfforddi a gwarantu swyddi; a rhaglenni'r farchnad lafur.

Sut i gymhwyso
Rhoddir grantiau i elusennau, mudiadau gwirfoddol, awdurdodau lleol, asiantaethau a phartneriaethau. Mae grwpiau cymunedol a mudiadau bach yn gymwys os:

- Oes ganddynt gyfansoddiad priodol;
- Oes ganddynt gyfrif banc gyda sieciau'n cael eu llofnodi gan ddau berson o leiaf;

- Ydynt yn cyflwyno cais trefnus wedi'i gostio a fydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i adfywio'r meysydd glo.

Rhaid i ymgeiswyr fod yn ariannol sefydlog, ac ni ddylai fod ganddynt gronfeydd wrth gefn sy'n fwy na chostau rhedeg 12 mis neu'n fwy na phedair gwaith gwerth y swm a ofynnir amdano.

Ceisiadau
Mae canllawiau a ffurflenni cais ar gael o swyddfa Pontypridd yr Ymddiriedolaeth. Gwahoddir ymgeiswyr i drafod eu cynigion gyda'r Rheolwr Adfywio. Mae'r Ymddiriedolaeth yn pwysleisio bod angen cynllunio'r prosiectau'n gynhwysfawr. Mae trefniadau ymgeisio ar wahân ar gyfer:

- Pontio'r Bwlch (grant bach) (£500 i £10,000) – mae angen cyfansoddiad, cyfrifon diweddar, canolwr annibynnol, a disgrifiad o'r prosiect;
- Prif Grant (£10,000 i £100,000) – mae angen gwybodaeth fwy manwl;

Ardaloedd cymwys
Meysydd glo presennol a blaenorol ac, fel eithriad, prosiectau y tu allan i'r ardaloedd hyn a fydd o fudd i ardal maes glo. Gwybodaeth fanwl ar gael o swyddfa'r Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo.

Cyswllt:
Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo,
Swyddfeydd Morol, Woodland Terrace,
Maesycoed, Pontypridd,
Rhondda Cynon Taf CF37 1DZ

Ffôn: 01443 404 455
Ffacs: 01443 408 804
alunt@coalfields-regen.org.uk
www.coalfields-regen.org.uk

Comic Relief

Nodau

Sefydlwyd Comic Relief ym 1984 i helpu pobl ddifreintiedig yn y DU ac yn Affrica. Codir arian drwy weithgareddau fel Dydd y Trwynau Coch. Rhoddir grantiau yn y DU i helpu cyrff gwirfoddol i fynd i'r afael â thlodi ac i hybu cyfiawnder cymdeithasol. Nod Comic Relief yw cyrraedd y bobl dlotaf a mwyaf difreintiedig, eu helpu i ddod o hyd i atebion i'w problemau, rhoi llais i bobl sy'n wynebu gwahaniaethu, cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd, a chefnogi gwaith sy'n dylanwadu ar bolisïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Rhaglenni a blaenoriaethau

Pobl ifanc a iechyd meddwl, pobl ifanc ac alcohol; pobl ifanc a gamdriniwyd drwy buteindra; pobl hŷn; iechyd meddwl; ffoaduriaid a cheiswyr lloches; trais yn y cartref a chymunedau difreintiedig.

Cyswllt: Tîm Grantiau'r DU,
89 Albert Embankment,
Llundain E1 7TP
Ffôn: 020 7820 5555
Ffacs: 020 7820 5500
Minicom 020 7820 5579
ukgrants@comicrelief.org.uk
www.comicrelief.com

Y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru

Mae'r Sefydliad yn cefnogi cynlluniau adfywio a grwpiau cymunedol ledled y wlad. Mae'n gweinyddu ac yn monitro nifer o brosiectau ar ran sefydliadau ac ymddiriedolaethau elusennol eraill.

Cyswllt: Liza Kellett,
Prif Weithredwr, Y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru, 14-16 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 1DG

Ffôn: 029 2052 0250
Ffacs: 029 2052 1250
mail@cfiw.org.uk

Dyfarniadau Cymunedol Corus

Mae'r Dyfarniadau yn disodli Ymddiriedolaeth Julian Melchett, ac wedi eu dyfeisio i annog ystod eang o achosion elusennol yn y cymunedau lle mae gan y cwmni weithgareddau gweithgynhyrchu a dosbarthu. Rhoddir dyfarniadau ar gyfer:

- Darparu cyfleusterau hamdden a galwedigaethau hamdden eraill
- Mynd i'r afael â'r henoed, tlawd, claf, anabl ac eraill sydd mewn angen arbennig.
- Hybu gwybodaeth, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r celfyddydau.Gwarchod a gwella nodweddion o ddiddordeb hanesyddol neu gyhoeddus, neu harddwch naturiol.
- Ehangu cyfleoedd addysgol.

Cyswllt:
Swyddog Gwybodaeth,
Swyddfeydd Adfywio,
Corus Strip Products,
Bloc G, Gwaith Llanwern,
Casnewydd NP19 4QZ

Ffôn: 01633 464 564
Ffacs: 01633 464 851

Ymddiriedolaeth Elusennol Tirfeddianwyr Cefn Gwlad

Nodau

Darparu cyfleusterau i bobl anabl a phobl dan anfantais. Eu galluogi hwy i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden cefn gwlad a hyfforddiant mewn amaethyddiaeth a garddwriaeth.Mae hefyd yn hyrwyddo addysg yng nghefn gwlad i blant a phobl ifanc sydd dan anfantais. Mae'n well gan yr ymddiriedolaeth gefnogi prosiectau bychain lle gall grant wneud 'gwir gyfraniad i lwyddiant y prosiect'. Ceisiadau yn ysgrifenedig i'r gohebydd. Grantiau: Mae'r grantiau yn amrywio o £1,000 i £4,900. Nid yw grantiau ar gael i unigolion.

Cyswllt: Peter Geldart, Cyfarwyddwyr,
The Elms, Everton, Sandy,
Swydd Bedford SG19 2JU
Ffôn: 01767 692050
Ffacs: 01767 683546
www.clacharitabletrust.org.uk

Ymddiriedolaeth Cwmbran

Nodau

Dibenion elusennol cyffredinol, yn arbennig addysg, iechyd a lleddfu tlodi a gwaeledd.Dylai ymgeiswyr fod â chefnogaeth ddisbyddedig ar gael gan ffynonellau eraill, a bod â manylion clir o'r gefnogaeth sy'n ofynnol, a'r costau.

Ardal: Yr ardal a ddynodir yn "Dref Cwmbran".

Cyswllt: K L Maddox, Ymddiriedolaeth Cwmbran, d/o Arvin Meritor,
Heol Grange, Cwmbran, NP44 3XU
Ffôn: 01633 834040
Ffacs: 01633 834051

Elusen Gwendoline a Margaret Davies

Nodau

Dibenion elusennol cyffredinol. Yng Nghymru yn bennaf.
Ceisiadau drwy lythyr gan elusennau cofrestredig yn unig, i'w cyflwyno rhwng Ionawr a Mawrth a Gorffennaf a Hydref. Mae canllawiau ar gael. Ni chydnabyddir ceisiadau aflwyddiannus oni bai fod amlen barod â stamp wedi'i hamgáu gyda'r cais.

Cyswllt: Mrs S Hamer, Y Sywddfeydd, Plas Dinam, Llandinam,
Powys SY17 5DQ
Ffôn: 01686 689172

Ymddiriedolaeth Cronfa'r Teulu

Nodau: Diben Ymddiriedolaeth Cronfa'r Teulu yw ysgafnhau'r baich sydd ar deuluoedd sy'n gofalu am blant dan 16 oed sy'n dioddef o anabledd difrifol, drwy roi grantiau a gwybodaeth am ofal y plentyn. Mae'r Ymddiriedolaeth yn sefydliad annibynnol a gofrestrwyd yn elusen ac fe'i noddir gan y Llywodraeth drwy Adran Weinyddiaeth Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.
Ceisiadau: Dylid cyflwyno ceisiadau ysgrifenedig gan roi enw llawn a dyddiad geni'r plentyn, enw a chyfeiriad y rhiant neu'r cynhaliwr, ychydig o fanylion am anabledd y plentyn a'r help y gofynnir amdano.
Grantiau: Ymhlith y grantiau a roddir y mae peiriannau golchi, gwyliau, gweithgareddau hamdden, gwersi gyrru, dillad gwelyau, dillad ac eitemau eraill i ofalu am y plentyn.

Cyswllt: Y Swyddog Gwybodaeth, Ymddiriedolaeth Cronfa'r Teulu,
Blwch SP50, Caerefrog YO1 9ZX
Ffôn: 01904 621115
Ffacs: 01904 652625
Minicom 01904 658085
info@familyfundtrust.org.uk
www.familyfundtrust.org.uk

Ymddiriedolaeth Ford ym Mhrydain

Nodau

Ymddiriedolaeth cwmni yw hon, a deillia ei hincwm o'r Cwmni Ceir Ford Cyf. Rhoddion unwaith-ac-am-byth yw'r rhan fwyaf o'r grantiau a roddir i elusennau sy'n byw yng nghyffiniau ffatrïoedd Cwmni Ceir Ford yn y DU. Rhoddir blaenoriaeth arbennig i brosiectau ieuenctid, anabledd ac addysgol yn enwedig os oes gweithwyr neu gyn-weithwyr i Ford yn gysylltiedig o'u

gwirfodd. Prin y rhoddir cymorth i elusennau cenedlaethol heblaw am i brosiectau penodol yn ardaloedd Ford. Gellir cyflwyno ceisiadau, drwy lythyr, unrhyw adeg. Ymwelir â rhai prosiectau.
Ardal: Rhoddir blaenoriaeth i ardaloedd ffatrïoedd Ford.
Cyswllt: Mr P.Taylor, Ymddiriedolaeth Ford ym Mhrydain, d/o Cwmni Ceir Ford Cyf, Ystafell 1-1619 Eagle Way, Brentwood, Essex CM13 3BW
Ffôn: 01277 252551
csnelli3@ford.com

Ymddiriedolaeth Joseph Strong Frazer

Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddibenion elusennol canolog gyda phwyslais ar helpu pobl, yn enwedig yr ifanc, yr hen, y gwael, yr anabl a'r amddifadus. Gellir cyflwyno ceisiadau ar unrhyw adeg ac fe'u hadolygir bob chwarter. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi grantiau i elusennau yn Ne Cymru a Gogledd Ddwyrain Lloegr ac i elusennau cenedlaethol. Mae'r rhan fwyaf o'r grantiau rhwng £500 a £2,000, ac ymddengys fod llawer o'r rhain yn cael eu hailadrodd o flwyddyn i flwyddyn.

Cyswllt: Yr Ysgrifennydd, Floor A, Milburn House, Dean Street, Newcastle Upon Tyne, Tyne and Wear NE1 1HX.
Ffôn: 0191 232 8065
Facs: 0191 222 1554

Ymddiriedolaeth Elusennol Gane

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymddiddori mewn hybu crefftau, addysg bellach ym maes crefftau, pensaernïaeth a dylunio, a lles cymdeithasol. Grantiau at ddibenion cyfalaf neu i dalu am gostau sefydlu.Dylid cyflwyno ceisiadau cyn mis Rhagfyr, Ebrill ac Awst bob blwyddyn.

Ardal: Cenedlaethol. Rhoddir blaenoriaeth i Gasnewydd (Gwent) a Bryste.
Cyswllt: Kenneth Stradling, 6 Sabrina Way, Stoke Bishop, Bryste BS9 1ST
Ffôn 0117 926548

Elusennau Garthgwynion

Y prif feysydd diddordeb yw'r elusennau cenedlaethol arweiniol sy'n ymchwilio i ganser, y golwg neu anhwylderau'r system nerfol, ac unigolion neu brosiectau cymunedol gyda chyswllt Cymreig (neu gorau oll os oes cyswllt gyda Chanolbarth Cymru), gydag un ai diben cymdeithasol neu artistig.

Ardal: Yn bennaf, plwyfi Isygarreg ac Uwchgarreg, Machynlleth, Powys.

Cyswllt: Yr Ysgrifennydd, 13 Osborne Close, Hanworth, Middlesex TW13 6SR.
Ffôn: 0208 8900469

Ymddiriedolaeth Elusennol G C Gibson

Rhoddir grantiau at ddibenion elusennol cyffredinol, i elusennau cofrestredig yn unig, a gallant dalu am gostau cyfalaf, costau rhedeg a chostau craidd a gwaith ymchwil. Asesir ceisiadau unwaith y flwyddyn ym mis Rhagfyr. Cydnabyddir ceisiadau llwyddiannus yn unig.
Grantiau: Mae'r grantiau'n amrywio o £1,000 i £10,000.
Cyswllt: Miss Karen Griffin, Deloitte, Ty Blenheim, Fitzalan Court, Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 0TS
Ffôn: 029 2048 1111
Ffacs: 029 20482615

Ymddiriedolaeth Elusennol Simon Gibson

Cefnogaeth gyffredinol i elusennau cofrestredig.
Ceisiadau yn ysgrifenedig, ar ffurf o ddewis yr ymgeisydd.
Ardal: De Cymru, East Anglia, Canol Llundain yn unig.
Grantiau: £2,000-£5,000; rhoddir cyfanswm o hyd at £400,000 bob blwyddyn.
Cyswllt: Bryan Marsh, Wild Rose House, Llancarfan, Bro Morgannwg CF62 3AD
Ffôn: 01446 781004
bryan@marsh66.fsnet.co.uk

Sefydliad Jane Hodge

Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddiddordeb mewn ymchwil ac astudiaethau meddygol a llawfeddygol, (yn enwedig canser, polio a thwbercwlosis ac afiechydon sy'n effeithio ar blant), ac mewn addysg a chrefydd. Rhoddir grantiau i elusennau cofrestredig yn unig, yn bennaf yng Nghymru. Dylid cyflwyno ceisiadau yn ysgrifenedig ar unrhyw adeg.

Cyswllt: Mrs Margaret Cason, Yr Ysgrifennydd, Ty Gwyn, Heol Llys-faen, Llys-faen, Caerdydd CF14 0SG
Ffôn: 029 2076 6521.

Ymddiriedolaeth Elusennol Syr Julian Hodge

Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddibenion elusennol cyffredinol, yn enwedig ymchwil feddygol i ganser, polio, twbercwlosis ac afiechydon plant, ond i elusennau cofrestredig yn unig y mae'n rhoddi.

Cyswllt: Mrs Margaret Cason, Yr Ysgrifennydd, Ty Gwyn, Heol Llys-faen, Llys-faen, CaerdyddCF14 0SG
Ffôn: 029 2076 6521.

Sefydliad Hoover

Rhoddir grantiau am weithgareddau sy'n fanteisiol i fyfyrwyr ac oedolion ifanc, ym maes addysg, lles ac ymchwil feddygol (er bod y gefnogaeth addysgol fel arfer yn mynd i brifysgolion ar gyfer ymchwil). Rhoddir grantiau i elusennau lleol bychain yn Ne Cymru, Glasgow a Bolton.

Cyswllt: Mrs Marion Heeffey,
Hoover UK, Pentrebach, Merthyr Tudful CF48 4TU
Ffôn: 01685 721222
Ffacs: 01685 725667.

Sefydliad Jenour

Nodau: Dibenion elusennol cyffredinol.
I fod yn gymwys: Elusennau cofrestredig yn unig.
Ardal: y DU, gyda blaenoriaeth i Gymru.
Ceisiadau: Y dyddiad cau yw Ionawr bob blwyddyn. (Hysbysir ceisiadau llwyddiannus yn unig).
Cyswllt: Miss K M Griffin, Ty Blenheim, Fitzalan Court, Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 0TS
Ffôn: 029 2048 1111

Ymddiriedolaeth Laspen

Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddibenion elusennol cyffredinol. Ni roddir unrhyw grantiau i unigolion. Asesir ceisiadau ym mis Ionawr neu Fehefin a dylai nodi a yw'r ymgeisydd wedi'i gofrestru'n elusen (neu'n cael ei gydnabod felly gan Gyllid y Wlad), y swm gofynnol, faint o adnoddau sydd gan yr ymgeisydd, enwau a chyfeiriadau'r rheini sy'n

gyfrifol am y gwaith gweinyddu. Dim ond ceisiadau a anfonir gydag amlen barod â stamp a gaiff eu cydnabod.
Ardal: Rhoddir blaenoriaeth i Ogledd Cymru, Glannau Merswy a Gogledd Iwerddon.
Cyswllt: R C H Douglas Pennant, Swyddfa'r Ystad, Bangor, Gwynedd LL57 4HN

Ymddiriedolaeth Elusennol Eric a Dorothy Leach

Rhoddir nawdd i sefydliadau sydd o fudd i blant, oedolion ifanc a phobl oedrannus ar gyfer gwasanaethau a chyfleusterau i anifeiliaid, iechyd a chadwraeth.
Ardal: Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr yn bennaf

Cyswllt: R Chamberlain, d/o Swayne, Wayne Johnson Ltd., Stryd Fawr, Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0R
Ffôn: 01745 582535
Ffacs: 01745 584504.

Sefydliad Charles Lloyd

Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu rhoddion unwaith-ac-am-byth ar gyfer adeiladu, trwsio a chynnal a chadw tai, lleiandai, mynachdai ac eglwysi Pabyddol. I fod yn gymwys rhaid cael tystiolaeth o galedi, a rhoddir blaenoriaeth i brosiectau penodol. Rhoddir grantiau i sefydliadau Pabyddol yn unig.
Ardal: Gogledd a Chanolbarth Cymru yn unig.
Cyswllt: y Parch C D S Lloyd, Dolobran Isaf, Pont Robert, Meifod, Powys SY22 6HU

Sefydliad Lloyds TSB i Gymru a Lloegr

Sefydliad Lloyds TSB yw un o'r cyrff annibynnol mwyaf sy'n ariannu'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Mae'n ceisio cyrraedd mudiadau ar lawr gwlad ledled Cymru. Dosbarthwyd tua £2 miliwn i elusennau ledled Cymru yn 2007, a swm cyfartalog y grantiau oedd £14,500. Rhoddir grantiau i elusennau lleol a rhanbarthol gyda incwm o dan £1miliwn. Cenhadaeth y Sefydliad yw cynorthwyo a gweithio mewn partneriaeth â elusennau cydnabyddedig sy'n helpu pobl sydd dan anfantais i chwarae rhan lawnach yn y gymuned.

Cyswllt:

Canolbarth a De Cymru – Blaenau Gwent, Pen y Bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Merthyr Tydful, Sir Fynwy, Castell nedd a Phort Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Powys, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Torfaen, Bro Morgannwg.

Mike Lewis
Rheolwr Grantiau y Canolbarth a De Cymru,
Pentagon House, 52-54 Southwark Street, Llundain, SE1 1UN
Ffôn: 07802 540793
Ffacs: 0870 4111224
mid&southwales@lloydstsbfoundations.org.uk
www.lloydstsbfoundations.org.uk

Gogledd Cymru - Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Wrecsam.

Cerys Thomas
Rhelowr Grantiau, Gogledd Cymru
Pentagon House, 52-54 Southwark Street, Llundain, SE1 1UN

Ffôn: 0750 0787749
Ffacs: 0870 4111224
northwales@lloydstsbfoundations.org.uk
www.lloydstsbfoundations.org.uk

Ymddiriedolaeth Elusennol Cwmni Morgan Crucible

Amcanion elusenol cyffredinol, os o bosib ym meysydd gofal iechyd, ymchwil meddygol, plant, cefnogaeth i'r anabl; pobl ac anableddau corfforol neu feddyliol, pobl ifanc mewn amgylchiadau difreintiedig.

Cyswllt: D J Coker, Cwmni Morgan Crucible ccc, Morgan House, Madeira Walk, Windsor, Berkshire SL4 1EP
Ffôn: 01753837000

Sefydliad Mr a Mrs J T Morgan

Hybu addysg a chrefydd yng Nghymru, a chefnogaeth i elusennau sydd o fudd i blant, oedolion ifanc, myfyrwyr a'r Nadolig. Rhoddir grantiau i eglwysi ac elusennau cenedlaethol a lleol.

Cyswllt: J A Lloyd, Calvert House, Calvert Terrace, Swansea SA1 6AP
Ffôn: 01792 655178.

Elusen Newstead

Darperir nawdd ar gyfer cyfleusterau cymunedol, iechyd ac anabledd. Ceisiadau yn ysgrifenedig at y gohebydd.

Cyswllt: The Clerk to the Trustees, Rathbones, Port of Liverpool Building, Pier Head, Liverpool L3 1NW
Ffôn: 0151 236666

Ymddiriedolaeth Oakdale

Dylai'r ymgeiswyr fod yn elusennau cofrestredig, a rhydd yr Ymddiriedolaeth flaenoriaeth i waith cymdeithasol, grwpiau cefnogi meddygol. Nid yw'r Ymddiriedolaeth, fel arfer, yn rhoi grantiau i unigolion, cynlluniau gwyliau, gweithgareddau chwaraeon a theithiau na gwaith adfer capeli.

Nid oes ffurflen gais i'w llenwi, ond dylai ceisiadau fod yn gryno, rhaid dyfynnu rhif cofrestru'r elusen, cynnwys crynodeb o'i chyflawniadau, ei chynlluniau, a'i hanghenion a chynnwys copi neu grynodeb o'i chyfrifon blynyddol diweddaraf. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, ym mis Ebrill a mis Medi fel arfer, a dylid cyflwyno ceisiadau cyn dechrau'r ddau fis hwn. Ni chydnabyddir unrhyw geisiadau, hyd yn oed os anfonir amlen barod â stamp gyda'r cais.

Mae'r grantiau yn amrywio o £100 i £2000 ac mae'r swm cyfartalog yn oddeutu £750. Bob blwyddyn rhoddir cyfanswm o oddeutu £130,000.

Cyswllt: Rupert Cadbury, Tansor House, Tansor, Oundle, Peterborough PE8 5HS
Ffôn: 01832 226386
oakdale@tanh.demon.co.uk

Ymddiriedolaeth y Teulu Owen

Blaenoriaethau: Ysgolion, Canolfannau Ieuenctid Cristnogol, Eglwysi, cymdeithasau cymunedol, cynlluniau a mudiadau cenedlaethol.

Gellir cyflwyno ceisiadau ysgrifenedig i'r gohebydd gydag adroddiad blynyddol, copi o gyfrifon, cyllideb ar gyfer y prosiect a gwybodaeth gyffredinol ynghylch y cais. Rhaid i'r mudiad fod yn elusen gofrestredig, fodd bynnag,

byddai corff' ymbarél', a fyddai'n cadw'r cronfeydd, yn dderbyniol.
Ardal: y DU, gyda blaenoriaeth i Ganoldir Lloegr, Gwynedd a Wrecsam.

Grantiau: Mae'r grantiau yn amrywio o £500 i £10,000. Mae'r ymddiriedolaeth yn datgan 'na roddir grantiau i unigolion oni bai eu bod yn rhan o gais elusen'.

Cyswllt: A D Owen, Mill Dam House, Mill Lane Aldridge, Walsall WS9 0NB
Ffôn: 0121 526 3131

Sefydliad James Pantyfedwen

Amcanion y Sefydliad yw hybu, annog a hyrwyddo crefydd ac addysg yng Nghymru, a dibenion elusennol eraill er budd pobl Cymru, gan gynnwys Eisteddfodau, eglwysi, ysgolion Sul a myfyrwyr (ôl-raddedig yn bennaf). Cyfyngir y grantiau i unigolion ac elusennau cofrestredig Cymreig sydd o fudd i bobl Cymru.

Cyswllt: Richard H Morgan, Ysgrifennydd Gweithredol,
9 Stryd y Farchnad,
Aberystwyth SY23 1DL
Ffôn: 01970 612806
Ffacs 01970 612806
pantyfedwen@btinternet.com

Ymddiriedolaeth Elusennol Pen-y-Clip

Rhoddir blaenoriaeth i brosiectau penodol er budd Gogledd Cymru, yn arbennig yr hen Sir Gaernarfon a'r hen Sir Fôn, yn hytrach na apeliadau cenedlaethol cyffredinol.

Cyswllt: Ceisiadau'n ysgrifenedig at Mr P G Brown, 59 Stryd Madog, Llandudno, Gwynedd LL30 2TW
Ffôn: 01492 874391.

Ymddiriedolaeth Bernard Piggot

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi dibenion elusennol cyffredinol, yn enwedig Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru, a sefydliadau er budd plant, pobl ifanc a drama a'r theatr.
Ardal: Ardaloedd penodol o Ogledd Cymru, a Dinas Birmingham.
Grantiau: Mae'r grantiau'n amrywio o £250 i £2,000.

Cyswllt: Mrs J P Littleworth, Secretary, 4 Streetsbrook Rd, Shirley, Solihull, B90 3PL
Ffôn: 0121 7441695

Ymddiriedolaeth Rainford

Ymhlith blaenoriaethau'r Ymddiriedolaeth y mae mudiadau gwirfoddol ac elusennol sy'n gweithio i wella ansawdd bywyd y gymuned ac sy'n ceisio darparu mathau newydd o waith a rhaglenni sy'n darparu gofal meddygol, addysg a gwelliannau amgylcheddol. Dylai ceisiadau gynnwys costau'r prosiect a chyfrifon diweddaraf y sefydliad sy'n ymgeisio. Mae ffurflen ar gael ar gais. Hysbysir ymgeiswyr llwyddiannus yn unig.

Grantiau: Rhoddir grantiau ar gyfer costau adeiladu, costau craidd, prosiectau, ymchwil, cyflogau a chostau sefydlu.

Cyswllt: W H Simm, Ysgrifennydd, d/o Pilkington plc, Prescot Road, St Helens Glannau Merswy WA10 3TT.
Ffôn: 01744 205744

Ymddiriedolaeth Rhymni

Nodau: Hyrwyddo unrhyw ddiben elusennol ar gyfer budd cyffredinol preswylwyr Rhymni ac, yn arbennig, datblygu addysg, hybu iechyd a rhoi cymorth i'r tlawd, y gwael a'r gofidus.
Ceisiadau: Derbynnir ceisiadau gan breswylwyr Rhymni yn unig, un ai'n gweithredu fel unigolion neu'n cynrychioli grwpiau gwirfoddol neu fudiadau o'r fro.
Cyswllt: D. Brannan, Ysgrifennydd, 11 Forge Crescent, Rhymni, Tredegar, Gwent NP22 5PR

Ymddiriedolaeth Teilo Sant

Nodau: Cefnogi gwaith efengylaidd yn Eglwys Cymru.
Grantiau: Tuag at gostau mentrau efengylaidd mewn plwyfi, Alpha courded, gweithgareddau efengylaidd a dosbarthu deunydd llenyddiaeth, er enghraifft. Mae'n rhoi grantiau un-tro yn amrywio o £50 i £1,000.
Ceisiadau: Yn ysgrifenedig at y gohebydd. Mae canllawiau ar gael gan yr ymddiriedolaeth.

Cyswllt: Mr Patrick Mansel Lewis, Cadeirydd, Capel Isaf, Manordeilo, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin SA19 7BS
Ffôn: 01558 822273

Ymddiriedolaeth Elusennol Dŵr Trent Hafren

Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu grantiau i fudiadau yn yr ardal i wella neu ehangu ar gyngor ynghylch arian/cwnsela ynghylch dyled i bobl gymwys. Rhaid i'r mudiad allu dangos bod prosiect yn debygol o fod er budd cwsmeriaid Dŵr Trent Hafren Cyf. Mae grantiau ar gael ar gyfer gwariant refeniw a/neu gyfalaf. Gall refeniw fod hyd at dair blynedd.
Ceisiadau: Mae ffurflen ar gael gan asiantaethau cynghori neu'n uniongyrchol gan yr ymddiriedolaeth a darperir gwybodaeth ychwanegol ar gais.
Ardal: Ardaloedd a wasanaethir gan Dŵr Trent Hafren Cyf, sydd yn cynnwys Powys a Sir Fynwy.
Grantiau: Nid yw'r grantiau ar gael i bobl nad ydynt yn talu trethi dŵr i Dŵr Trent Hafren Cyf.
Cyswllt: S Braley, Emmanuel Court, 12-14 Mill St, Sutton Coalfield, B72 1TJ
Ffôn 01213557766
Ffacs: 01213548485

Bwrdd Cyllid Esgobaethol Abertawe ac Aberhonddu Cyf

Nodau: Cedwir y rhan fwyaf o'r incwm blynyddol i gefnogi gweithgareddau a gwaith gweinyddol gweinidogaeth Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru. Rhoddir grantiau at ddibenion secwlar mewn amgylchiadau eithriadol yn unig.

Cyswllt Mrs H Price, Canolfan Esgobaethol Abertawe ac Aberhonddu, Cathedral Close, Aberhonddu LD3 9DP
Ffôn 01874 623716
Ffacs: 01874 623716.

Cronfa Elusennau Synthite

Nodau: Dibenion elusennol cyffredinol.
Ardal: yr Wyddgrug, Sir y Fflint.
Cyswllt: G D Williams, Trysorydd, Synthite Limited, Ffordd Dinbych, yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 1BT.
Tel: 01352 752521
Ffacs: 01352 700182
graham@synthite.co.uk

Sefydliad Waterloo

Y blaenoriaethau ariannu ar gyfer Cronfa Cymru yw:

Cymru'n Gweithio
Mae'r Sefydliad yn awyddus i gefnogi a chynorthwyo datblygiad diwylliant menter yng Nghymru ac felly byddai'n croesawu ceisiadau oddi wrth fudiadau a phrosiectau a fydd yn cynorthwyo pobl i ddod o hyd i waith, boed hwy'n gweithio i eraill neu iddynt eu hunain. Bydd y Sefydliad yn edrych yn ffafriol hefyd ar geisiadau sy'n mynd i'r afael â 'rhwystrau rhag gweithio' a bydd yn rhoi'r un croeso i ddulliau sydd wedi profi'n llwyddiannus eisoes ac i brosiectau sy'n fwy arloesol eu natur.

Cymru'n Gofalu
Amcangyfrifir bod 1 o bob 10 person yng Nghymru'n darparu gofal yn ddi-dâl i aelod o'u teulu, cyfanswm o tua 300,000 o bobl. O'r rhain, credir bod 7,000 yn blant rhwng 5 a 15 oed (ffynhonnell: y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Mae'r Sefydliad yn credu bob yr oedolion a'r plant hyn, sy'n gorfod byw a gweithio fel hyn, yn haeddu ein help.

I'r perwyl hwn, mae'r Sefydliad yn gwahodd ceisiadau oddi wrth fudiadau a phrosiectau sy'n darparu:

- Rhaglenni Eiriolaeth ar gyfer Gofalwyr;
- Hyfforddiant a Chefnogaeth i Ofalwyr;
- Gofal Seibiant.

Y Gorau o Gymru
Er bod y Sefydliad am roi blaenoriaeth i'r rhaglenni Cymru'n Gweithio a Chymru'n Gofalu, mae'n cydnabod bod llawer o fudiadau ac elusennau yng Nghymru wedi goroesi dros y blynyddoedd ac sy'n parhau i wneud gwaith da. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod rhai ohonynt yn cael trafferth dal ati gyda'u gwaith gan eu bod yn tynnu at ddiwedd cyfnod o gyllid cyhoeddus neu eu bod yn gorfod gwneud toriadau cyffredinol, ac yn sylweddoli nad oes llawer o gyfleoedd 'masnachol' ar gael i gymryd lle'r arian maent wedi arfer ei dderbyn.

Hoffai'r Sefydliad gefnogi'r Gorau yng Nghymru, ac felly bydd angen i brosiectau ddangos:

1. **Gwybodaeth** – bod gan dîm y prosiect ddealltwriaeth amlwg a phendant o'r angen
2. **Profiad** – mae wedi cynllunio'r ymateb i ddiwallu'r angen hwn
3. **Arbenigedd** – wedi'i ddatblygu a'i gadw o fewn y mudiad
4. **Canlyniadau arbennig** wedi'u cyflawni.

Yn gyffredinol, dylai'r prosiect feddu ar dystiolaeth o'i natur arbennig. Mae'n debygol y rhoddir grantiau i fudiadau a phrosiectau sydd:

- wedi bod yn weithredol ers mwy na 5 mlynedd;
- wedi derbyn nawdd sylweddol yn y gorffennol;
- yn bwriadu ailstrwythuro er mwyn;
- rhoi'r mudiad ar sylfaen ariannol fwy cynaliadwy.

Rhoddir grantiau i bob math o brosiectau; ar gyfer costau sefydlu, y camau cyntaf a chyllid rheolaidd gwerthfawr. Gall hyn gynnwys costau cynnal a gorbenion yn ogystal â swyddi; yn enwedig o dan Ddatblygiad Byd a Phrosiectau yng Nghymru. Ni roddir terfynau uchaf ac isaf ar faint y grant a

gynigir ond nid ydynt yn debygol o gynnig grant sy'n fwy na £100,000. Dim ond ceisiadau e-bost a dderbynnir.

Cyswllt: Sefydliad Waterloo
46-48 Heol Caerdydd
Llandaf
Caerdydd
CF5 2DT
info@waterloofoundation.org.uk
www.waterloofoundation.org.uk

Ymddiriedolaeth Gofal Wrecsam

Nodau: Cefnogi addysg grefyddol, apeliadau nad ydynt yn ymwneud â phleidiau gwleidyddol ac achosion lles.
Ardal: Wrecsam a'r cylch
Ceisiadau: Ysgrifenedig at y gohebydd, er bod yr ymddiriedolaeth yn datgan mai dim ond trwy gysylltiad personol uniongyrchol y derbynnir ceisiadau.

Cyswllt: J.Owen Hardwicke, gweinyddwr, 1 Stryd Bury, Hightown Wrecsam. LL13 8NS
Ffôn 01978 312375.

Cymdeithas Lles y Deillion Gorllewin Morgannwg

Nodau: Mae'r ymddiriedolaeth yn cefnogi pobl sydd â nam ar y golwg, yn gyffredinol ac yn unigol, yn yr ardal sy'n elwa.
Ardal: O fewn ffiniau awdurdodau unedol Abertawe a Chastell Nedd Port Talbot.
Ceisiadau: Ysgrifenedig ar y gohebydd. Dylai unigolion ymgeisio trwy weithiwr/wraig cymdeithasol.

Cyswllt: Alan Cuff, Ystafell 2.3.31, Neuadd y Sir, Heol Ystumllwynarth, Abertawe, SA31 3SN.
Ffôn 01792 636073
Ffacs: 01792 636807.

Cronfeydd Deddf yr Eglwys yng Nghymru

Y Cronfeydd: Ymddiriedolaethau elusennol a weinyddir gan awdurdodau lleol neu Cynghorau Gwirfoddol Sirol yw Cronfeydd Deddf yr Eglwys yng Nghymru, a defnyddir cronfeydd a ryddheir yn sgîl datgysylltu'r Eglwys yng Nghymru.
Nodau: Gall holl Gronfeydd Deddf yr Eglwys yng Nghymru wasanaethu'r dibenion canlynol:

- Addysg – darparu manteision nad ydynt ar gael yn hawdd o ffynonellau eraill;
- lleddfu gwaeledd ac angen;
- llyfrgelloedd, amgueddfeydd, orielau celf, ayb;
- cyfleusterau hamdden a chymdeithasol;
- materion esthetig, pensaernïol, hanesyddol a gwyddonol;
- triniaeth ac ymchwil gymdeithasol a meddygol;
- cynlluniau prawf;
- pobl ddall neu oedrannus;
- addoldai neu fynwentydd;
- argyfyngau neu drychinebau, dibenion elusennol eraill.

Grantiau a cheisiadau: Bydd gan bob awdurdod lleol neu Cyngor Gwirfoddol Sirol ei feini prawf a'i drefn ymgeisio ei hun, a bydd eu blaenoriaethau'n wahanol. Mae gan lawer uchafswm grant a gall hwn fod cyn lleied â £250 mewn awdurdodau nad oes ganddynt ond ychydig filoedd o bunnoedd i'w dosbarthu yn sgîl ail-ddyrannu Cronfeydd Deddf yr Eglwys yng Nghymru. Cysylltwch â'r awdurdodau lleol neu Cyngor Gwirfoddol Sirol perthnasol i gael rhagor o wybodaeth, manylion a ffurflenni cais.

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr
Y Mwnt, 18 Heol y Frenhines, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1JT
Elusen Gofrestredig *1062144*

Ffôn: 01267 245555 info@cavs.org.uk
Ffacs: 01267 245550 www.cavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:02/07/2009

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk